



Canllaw i fyfyrwyr: Recordio fideo a'i arbed yn OneDrive (Android)

Aseiniadau fideo

Mae fideo yn dod yn fwyfwy poblogaidd fel cyfrwng nid yn unig i ddarparu cynnwys o ddarlithwyr i fyfyrwyr ond hefyd fel arddull i fyfyrwyr arddangos eu dealltwriaeth a dysgu. Y dull mwyaf effeithlon o gyflwyno fideo i'ch tiwtor yw trwy OneDrive. Mae'r canllaw hwn yn arddangos sut i recordio a llwytho fideo i OneDrive ar ffôn neu lechen Android. Er mwyn danfon i fideo o OneDrive i'ch tiwtor mi fydd angen Rhannu - gweler y canllaw ar wahân **"Rhannu ffeil o OneDrive"**.

Cam 1:

Er mwyn gallu defnyddio OneDrive ar eich dyfais Android mi fydd angen yr ap OneDrive arnoch. Yn dibynnu ar eich dyfais mae'n bosib bydd yr ap eisoes ar eich dyfais o dan "Microsoft Apps", ond os oes angen gallwch ei lawrlwytho o'r Google Play store.

Cam 2:

Recordiwch eich fideo gan ddefnyddio'r ap **Camera**. Ar ôl gorffen, ewch i'r fideo yn yr ap **Gallery** a'i agor. Mi fydd opsiynau yn ymddangos ar y sgrin am ychydig eiliadau - dewiswch **Share** ac mi welwch nifer o ffyrdd o rannu'r ffeil. Dewiswch **OneDrive** - mae'n bosib bydd yn ymddangos ymhlith yr opsiynau gyntaf - os nac ydy, llusgwch y sgrin i'r chwith i weld mwy o opsiynau.

Cam 3:

Os nad ydych eisoes wedi gwneud, mi fydd angen i chi fewngofnodi i'ch cyfrif **OneDrive**. Defnyddiwch fanylion eich cyfrif Prifysgol. Yna fe welwch eich ffolderi a ffeiliau yn OneDrive. I storio'r fideo yn y brif ffolder cliciwch y tic ar y dde uchaf. I'w storio mewn ffolder penodol, cliciwch ar y ffolder priodol ac yna'r tic ar dde uchaf y sgrin. I greu ffolder newydd, cliciwch yr arwydd plws mewn cylch oren ar dde isaf y sgrin.

Cam 4:

Mi fydd eich fideo nawr yn eich OneDrive, ble bynnag yr ewch iddo - ar eich ffôn, drwy MyDay neu unrhyw ddull arall. Am gymorth ar sut i rannu ffeil o OneDrive gweler ein canllaw **"Rhannu ffeil o OneDrive"**.

